

Cod Ymddygiad Digwyddiadau TPAS Cymru



Yn TPAS Cymru, rydym am i'n digwyddiadau fod yn ddiogel, yn gynhwysol, ac yn bleserus i bawb.

Mae'r Cod Ymddygiad hwn yn nodi'r hyn a ddisgwyliwn gan bob mynychwr, siaradwr, a staff.

Drwy fynychu rydych yn cytuno i ddilyn y Cod Ymddygiad hwn.

Byddwch yn gynhwysol

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu profiad cynadledda cynhwysol i bawb, waeth beth fo'u hil, ethnigrwydd, tarddiad cenedlaethol, dinasyddiaeth, neu iaith, rhyw, hunaniaeth a mynegiant rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ymddangosiad corfforol, maint corff, oedran, crefydd neu ddsbarth economaidd. Nid oes lle i wahaniaethu, aflonyddu, bwlio ac ymddygiadau sy'n nawddoglyd yn ein digwyddiadau ac ni fyddant yn cael eu goddef.

Peidiwch â defnyddio iaith na ymddygiad sy'n hiliol, rhywiaethol, homoffobig, trawsffobig, nac yn wahaniaethol mewn unrhyw ffordd.

Rydym hefyd yn dilyn Deddf Cydraddoldeb 2010. Ni fydd gwahaniaethu yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig yn cael ei oddef.

Byddwch yn barchus

Trin pawb â charedigrwydd a pharch, waeth beth fo'u cefndir, rôl neu farn. Gwrandewch ar eraill a gadewch i bawb gael llais.

Cadwch hi'n ddiogel

Ni dderbynnir aflonyddu, bwlio, nac unrhyw fath o sylw digroeso. Mae hyn yn cynnwys sylwadau, cyswllt corfforol, neu ymddygiad ar-lein sy'n gwneud i rywun deimlo'n anghyfforddus.

Dywedwch

Os gwelwch neu os byddwch chi'n profi rhywbeth nad yw'n teimlo'n iawn, dywedwch wrth aelod o dîm y digwyddiad. Byddwn yn cymryd pob adroddiad o ddifrif ac yn gweithredu'n gyflym, yn deg, ac yn ofalus.

Dilynwch y gyfraith a rheolau'r lleoliad

Parchwch reolau'r lleoliad a dilynwch unrhyw ganllawiau iechyd a diogelwch a ddarperir.

Ymddygiad Annerbyniol a Gwaharddedig

Ni oddefir aflonyddu o unrhyw fath. Mae hyn yn cynnwys:

- Sylwadau sarhaus am ryw, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, anabledd, hil, crefydd, neu gefndir.
- Bygwth, stelcio, neu ddilyn rhywun.
- Ymddygiad aflonyddgar mewn sgysiau neu sesiynau.
- Rhannu/Dangos delweddau rhywiol a sarhaus
- Gor-ddefnyddio alcohol neu ymddygiad sy'n niweidio eraill.

- Meddu ar arfau neu sylweddau anghyfreithlon.
- Unrhyw weithgaredd anghyfreithlon neu fygythiol.
- Sylwadau llafar, arddangosfeydd gweledol, neu gyswllt corfforol digroeso neu sarhaus wedi'u cyfeirio at unrhyw fynychwr, gan gynnwys ymddygiad, sylwadau neu ddelweddau y byddai person yn rhesymol yn eu hystyried yn sarhaus.
- Ni chaniateir dillad, ategolion, bathodynau nac eitemau eraill sy'n arddangos geiriau, delweddau neu negeseuon sarhaus, gwahaniaethol, bygythiol, rhywiol eglur, camdriniol neu amhriodol fel arall.
- Ffotograffiaeth, Ffilmio a Recordio:
 - Rhaid i fynychwyr barchu preifatrwydd a chydysyniad cynrychiolwyr, siaradwyr, gwesteion, staff y lleoliad a chyfranogwyr eraill y digwyddiad.
 - Gwaherddir ffotograffiaeth, ffilmio neu recordio sain cudd neu anhysbys o unrhyw berson yn y digwyddiad. Mae hyn yn cynnwys defnyddio sbectol glyfar at y diben hwn.
 - Dim ond lle mae wedi'i awdurdodi'n benodol gan drefnwyr y digwyddiad ac yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol y digwyddiad neu'r lleoliad y caniateir recordio cyflwyniadau, sesiynau neu weithgareddau digwyddiad eraill.
 - Rhaid i unrhyw un y gofynnir iddo roi'r gorau i recordio neu ddileu/tynnu deunydd lle nad yw'r recordiad wedi'i awdurdodi gydymffurfio â'r cais hwnnw ar unwaith.

Os ydych chi'n ansicr os yw rhywbeth yn iawn - **peidiwch â'i wneud**.

Os bydd rhywbeth yn digwydd

Os byddwch chi'n profi neu'n gweld ymddygiad amhriodol, siaradwch ag aelod o staff TPAS Cymru cyn gynted â phosibl. Mae eich diogelwch a'ch lles yn bwysig i ni, a byddwn yn gwrando ac yn ymateb yn sensitif.

Canlyniadau

Os yw'r Cod hwn yn cael ei dorri, efallai y byddwn:

- Yn gofyn i chi adael y digwyddiad ar unwaith.
- Eich gwahardd o ddigwyddiadau TPAS Cymru yn y dyfodol.
- Adroddwch am ddigwyddiadau difrifol i'r heddlu neu awdurdodau eraill.

Nid yw'r Cod hwn wedi'i fwriadu i fod yn gynhwysfawr, ac mae'n debygol y bydd problemau ymddygiad eraill nad yw'n mynd i'r afael â nhw'n benodol. Yn yr achos hwnnw, fel ym mhob achos arall, disgwylir i'r mynychwyr ddilyn cyfarwyddyd staff TPAS Cymru a fydd yn cymryd camau priodol i sicrhau diogelwch, sicrwydd a lles y mynychwyr.

Diolch

Drwy ddilyn y Cod hwn, rydych chi'n helpu i greu lle, lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u bod yn ddiogel. Diolch i chi am fynychu digwyddiadau TPAS Cymru a chefnogi ein gwerthoedd.

Tachwedd 2026